**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad** 30 Hydref 2001
**Amser** 9: 30 a.m.
**Lleoliad** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Corrine Leavey | Dirprwy Glerc y Pwyllgor Dros Dro |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Pauline Jarman

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-22-2001 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau iddo ef a Dai Lloyd gyfarfod â chynrychiolwyr Senedd Fflandrys a fu ar ymweliad ddydd Iau 25 Hydref.

2.2 Roedd gan y tîm o Fflandrys ddiddordeb mewn datganoli yng Nghymru a'r modd mae'n cymharu â'r system yn yr Alban yn arbennig. Roeddent hefyd yn dymuno gwybod ynglyn â'r dulliau o gynnig, drafftio a chymeradwyo is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys agwedd ddiduedd gweision sifil sy'n cymryd rhan yn y broses hon. Trafodwyd rôl a swyddogaethau'r Pwyllgor Deddfau.

2.3 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai pedwar Comisiynydd Cyfansoddiadol o Uganda yn ymweld â'r Cynulliad ddydd Iau 15 Tachwedd. Roedd gan y Comisiynwyr ddiddordeb mewn dysgu am waith y Pwyllgor Deddfau a materion is-ddeddfwriaeth. Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i fynychu cyfarfod â'r tîm o Uganda.

2.4 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Deddfau yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC343: Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor nifer o bwyntiau teipograffyddol y mae angen eu cywiro, a gwnaeth un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC343 (Adroddiad).

**LC344: Rheoliadau Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Diwygiadau Canlyniadol) (Ysgolion) (Cymru) 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor rai pwyntiau gramadegol/teipograffyddol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC344 (Adroddiad).

**LC345: Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.7 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC345 (Adroddiad).

**LC346: Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2001**
3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yn ymwneud â gwallau yn y nodyn esboniadol a'r troednodiadau yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad. Byddai'n addas cynnwys y materion hyn mewn Memorandwm Cywiriadau.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC346 (Adroddiad).

**LC347: Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001**
3.13 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor ddau bwynt teipograffyddol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC347 (Adroddiad).

**LC348: Rheoliadau Hadau Betys (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.16 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC348 (Adroddiad).

**LC349: Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.19 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.20 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC349 (Adroddiad).

**LC350: Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.22 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.23 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.24 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC350 (Adroddiad).

**LC351: Rheoliadau Tatws Hadyd (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.25 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.26 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.27 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC351 (Adroddiad).

**LC352: Rheoliadau Hadau Llysiau (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.28 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.29 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.30 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC352 (Adroddiad).

**LC353: Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2001**

3.31 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Estynedig.

3.32 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Tynnwyd sylw'r cyfreithiwr drafftio at nifer o bwyntiau teipograffyddol.

3.33 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC353 (Adroddiad).

**Eitem 4: Adroddiad gan y Cadeirydd ar y Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwygio Rheoliadau,**

**Rheoli a Chraffu ar Ddeddfwriaeth**
4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ar yr ymweliad i Sydney ym mis Gorffennaf 2001. Diolchodd i Mark Partridge am ei gymorth. Crybwyllodd y Cadeirydd fod Dylan Hughes a oedd yn Awstralia ar adeg y Gynhadledd wedi cadeirio un sesiwn.

4.2 Dywedodd y Cadeirydd mai pedwar nod sylfaenol oedd i'w ymweliad a'i fod o'r farn fod pob un o'r rhain wedi'u cyflawni. Yn nhyb y Cadeirydd roedd dau fater o ddiddordeb arbennig i aelodau'r Cynulliad, sef: sefydlu "gwarchodwyr" cyfreithiol annibynnol a gwaith y "Red Tape Commission" yn Ontario. Mae'r gwaith ar "warchodwyr" cyfreithiol annibynnol yn cael ei wneud gan Swyddfa Adolygu Rheoliadau Awstralia sy'n archwilio ac adolygu rheoliadau i sicrhau nad ydynt yn gosod costau gormodol ar fusnesau neu'r gymuned. Sefydlwyd y "Red Tape Commission" gan lywodraeth Ontario. Ei nod yw lleihau biwrocratiaeth, a gosod Prawf Effaith ar Fusnes ar yr holl reoliadau newydd, lleihau biwrocratiaeth drwy gyfrwng deddfwriaeth y llywodraeth a chynghori'r llywodraeth ynglyn â sut i leihau biwrocratiaeth ddiangen. Croesawodd y Cadeirydd y ddwy fenter hon a thynnodd sylw at y ffaith y gallai'r Cynulliad elwa ar gyfle i ymestyn rôl y Pwyllgor Deddfau i gynnwys archwilio effeithiolrwydd deddfwriaeth.

4.3 Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith nad oedd unrhyw anrheg swyddogol wedi'i darparu i aelodau'r Cynulliad ei rhoi wrth ymweld â chyrff llywodraethol eraill. Penderfynwyd y dylid ceisio eglurhad ar y polisi anrheg swyddogol. **GWEITHREDU: CLERC/CADEIRYDD**

4.4 Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunwyd y dylid archwilio'r posibilrwydd o gyhoeddi'r gwaith fel dogfen swyddogol. Gofynnwyd i'r Clerc geisio eglurhad ar y polisïau sy'n bodoli eisoes ar y mater. **GWEITHREDU: CLERC/CADEIRYDD**

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Tachwedd 2001.